# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU ATODOL A DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 89 Gorchmynion

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan y Mesur hwn—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer—

(i) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol achosion, ardaloedd, awdurdodau a disgrifiadau o awdurdod;

(ii) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(iii) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

(2) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 34 yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw gorchymyn yn cynnwys darpariaethau a wnaed o dan y pwerau a grybwyllir yn is-adran (4).

(4) Rhaid peidio â gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn (ar ei ben ei hun neu ynghyd â darpariaethau eraill) a wnaed o dan adran 34(3)(a) onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.